# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU, 27 HYDREF 2022

**Yn bresennol:**

**Y CYNGHORWYR:** Elin Hywel (Cadeirydd)

Stephen Churchman, Delyth Lloyd Griffiths, Annwen Hughes, Gwilym Jones, Linda Morgan, Edgar Owen, Llio Elenid Owen, Elfed Powell Roberts, Arwyn Herald Roberts, Beca Roberts, Peter Thomas, Rob Triggs, Rhys Tudur a Gruffydd Williams.

**Swyddogion yn bresennol:**
Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu), Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaeth Democratiaeth) ac Eirian Roberts(Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 5:**
Y Cynghorydd Dafydd Meurig (Aelod Cabinet Amgylchedd), Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd) a Rebeca Jones (Rheolwr Cynllunio (Polisi Cynllunio ar y Cyd)).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 6:**
Y Cynghorydd Dafydd Meurig (Aelod Cabinet Amgylchedd), Wyn Williams (Rheolwr Cefn Gwlad) a Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 7:**
Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones (Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac Ymgynghoriaeth Gwynedd), Steffan Jones (Pennaeth Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) ac Emlyn Jones (Pennaeth Cynorthwyol Ymgynghoriaeth Gwynedd).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorwyr Robert Glyn Daniels, Elwyn Edwards a Kim Jones.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 28 Medi 2022 fel rhai cywir.

**5. DATBLYGIADAU CENEDLAETHOL A LLEOL YNG NGHYSWLLT RHEOLI EFFAITH AIL GARTREFI A LLETY GWYLIAU AR ALLU POBL LEOL I GAEL MYNEDIAD I GARTREFI YN EU CYMUNED A'R CYNLLUN DATBLYGU LLEOL DIWYGIEDIG.**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet Amgylchedd, Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd a Rheolwr Cynllunio (Polisi Cynllunio ar y Cyd). Tynnwyd sylw yn fras at y prif bwyntiau canlynol:

- Eglurwyd bod trafferthion wedi bod yn y gorffennol wrth geisio rheoli niferoedd ail gartrefi yng Ngwynedd. Roedd hyn gan nad oedd rheoliadau mewn lle i atal pobl rhag diwygio defnydd eu tai, heb yr angen i ymgeisio am ganiatâd cynllunio.

- Manylwyd bod dosbarth defnydd newydd wedi cael ei wneud ar gyfer trosi tai i dai myfyrwyr yn ninasoedd Cymru a bod hyn wedi gyrru ymchwiliad craffu i edrych ar y posibilrwydd o greu dosbarth defnydd newydd ar gyfer tai oedd yn cael ei drosi yn ail dau neu dai gwyliau.

- Comisiynwyd ymchwiliad gan y Cabinet yn 2019 er mwyn edrych i mewn i'r maes hwn a mabwysiadwyd adroddiad yr arolwg ym mis Hydref 2020 a oedd yn cynnwys argymhellion ar seiliau cynllunio, trwyddedu a chyllid. Bu i Lywodraeth Cymru wneud ymchwiliad pellach gan wneud canfyddiadau tebyg iawn.

- Cadarnhawyd bod tri dosbarth defnydd newydd bellach wedi dod i rym, sef:

  - C3 – Prif Gartref
  - C5 – Ail Gartref
  - C6 – Llety Gwyliau byr dymor

- Nodwyd bod gan berchnogion yr hawl i newid rhwng y dosbarthiadau defnydd hyn heb ganiatâd cynllunio. Er mwyn gallu rheoli hyn, mae angen cyflwyno cyfarwyddyd Erthygl 4. Nodwyd byddai hyn yn rhoi grymoedd i'r Cyngor ei wneud yn ofynnol i berchnogion ymgeisio am ganiatâd cynllunio cyn newid dosbarth defnydd eu tai.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion canlynol:

Tynnwyd sylw at ymgyrchoedd eraill a gyfranodd at y datblygiadau hyn megis adroddiad Simon Brooks a mudiad Hawl i Fyw Adra.

Holwyd sut byddai'r broses o gasglu tystiolaeth a data yn cael ei ariannu.

- Mewn ymateb i'r ymholiad, cydnabodd Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd bod tair cam er mwyn sicrhau fod erthygl 4 yn dod yn weithredol. Ar hyn o bryd mae'r adran yn blaenoriaethu'r cam cyntaf, sef casglu tystiolaeth oedd yn cael ei wneud gan y Gwasanaeth Polisi ar y Cyd. Gan fod y gwaith hwn yn ddigynsail, rhagwelir angen i gael arweiniad gan Cwnsel ac angen felly am arian ychwanegol.
- Cadarnhawyd bydd angen recriwtio swyddogion cynllunio ychwanegol pan ddaw erthygl 4 yn weithredol. Mae'n debygol y byddai hyn yn digwydd yn ystod 2023/24. Cyflwynwyd cais i Lywodraeth Cymru ers mis Medi 2022 yn gwneud cais am adnoddau ychwanegol er mwyn sicrhau bod y Cyngor mewn sefyllfa gref i weithredu yn effeithiol pan ddaw erthygl 4 i rym.
- Eglurwyd bod recriwtio yn broblem ehangach o fewn yr adran yn dilyn pwysau cymhwyso a phwysau ieithyddol y swyddi. Cadarnhawyd fod gwaith yn cael ei wneud i sicrhau bod swyddi'r adran yn apelio i raddedigion. Mae'r adran yn rhannu'r cyfleoedd sydd ar gael gyda phrifysgolion er mwyn denu ymgeiswyr.

Gofynnwyd a oes modd cael adroddiad ar ddatblygiadau'r broses recriwtio er mwyn gallu ystyried os bydd yr amserlen o allu gweithredu erthygl 4 ar ddechrau 2024 yn gyraeddadwy.

- Mewn ymateb i'r ymholiad, cytunodd Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd byddai recriwtio yn gallu bod yn rhan o adroddiad yr adran yng nghyfarfod mis Mawrth 2023, ond y bydd yr adroddiad yn canolbwyntio'n bennaf ar yr opsiynau ar gyfer ardaloedd lle gellir cyfiawnhau cyfarwyddyd erthygl 4. Pwysleisiwyd ei fod yn fwriad i gwrdd â'r amserlen ar hyn o bryd ond gall hyn newid gan ei bod yn anodd rhagweld pa rwystrau gall godi o wybod fod y broses yn ddigynsail.
- Esboniwyd bod y newidiadau i ddosbarth defnydd yn weithredol ers 20 Hydref 2022. Ers hynny mae'r Adran wedi bod yn gweithredu ar y ddeddfwriaeth pan yn delio gyda ceisiadau cynllunio am dai newydd drwy ddefnyddio amod cynllunio i ddiddymu'r hawl i newid o ddefnydd prif gartref (C3) i ddefnyddiau C5 a C6. Yn sgil hyn, bydd angen i gael caniatâd ffurfiol i newid dosbarth defnydd tai, a'r amcan yw bod hynny yn cael ei wneud rŵan cyn i erthygl 4 ddod i rym.

Ystyriwyd hefyd os fyddai'r ddeddfwriaeth yn debygol o greu problemau mewn ardaloedd lle nad oedd ail dai yn ofid ar hyn o bryd. Gofynnwyd a oedd ystyriaeth yn cael ei wneud ar gyfer ardaloedd a oedd yn ymylu gydag awdurdodau eraill ac os oedd gwaith cydweithio yn digwydd gyda'r awdurdodau hynny er mwyn i bawb ddilyn yr un rheolau.

- Mewn ymateb i'r ymholiad, cydnabodd y Rheolwr Cynllunio (Polisi Cynllunio ar y Cyd) bod rhaid gofalu nad ydi'r system yn creu problemau mewn ardaloedd ble nad oes problem yn bodoli eisoes. Er mwyn ceisio atal hyn, mae'r adran yn dilyn proses casglu tystiolaeth yn barhaus.
- Cadarnhawyd bod gwaith cydweithio yn digwydd gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn rheolaidd. Mae'r dystiolaeth a gesglir yn cael ei rannu gyda nhw, ac mae'r broses cydweithio yn gadarnhaol iawn hyd yma.

Nododd aelod yr angen i roi ystyriaeth i 'buffer zones'. Mewn ymateb i gwestiwn yng nghyswllt maint ardaloedd gweithrediad cyfarwyddyd erthygl 4, nododd Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd y gallai ardal fod ar sail ward etholiadol neu ardal benodol. Ymhelaethodd ni ddiystyrir unrhyw opsiwn o ran maint ardal a chytunodd bod angen rhoi ystyriaeth i ardaloedd ar gyrion ardal lle fyddai cyfarwyddyd yn weithredol.

Cwestiynwyd sut mae ardaloedd sydd angen cyfarwyddyd erthygl 4 yn cael eu hadnabod, a holiwyd os oes meini prawf penodol ar gyfer ei dderbyn.

- Mewn ymateb i'r ymholiad, nododd (Rheolwr Cynllunio (Polisi Cynllunio ar y Cyd) bod llawer o dystiolaeth yn mynd i mewn i adnabod ardal sydd angen y cyfarwyddyd. Mae'r rhain yn cynnwys yr iaith Gymraeg, sefyllfaoedd ysgolion a faint o dai sydd yn cael eu rhentu allan fel Llety Gwyliau byr dymor. Mae'r dystiolaeth a gesglir ar bob agwedd ac yn cael ei ystyried yn fanwl er mwyn gweld os bydd yr ardal angen cyfarwyddyd erthygl 4 a bydd y wybodaeth hefyd yn cael ei ddefnyddio er budd polisïau newydd y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig.

Gofynnwyd a oes ymholiadau yn cael ei wneud gyda'r cyhoedd er mwyn cael llais pobl yr ardal.

- Mewn ymateb i'r ymholiad, nododd (Rheolwr Cynllunio (Polisi Cynllunio ar y Cyd), fod strategaeth ymgynghori yn cael ei ddatblygu gyda'r tîm cyfathrebu. Nid oes esiamplau penodol o sut mae gwneud hyn ond bydd angen sicrhau ein bod yn cwrdd a'r gofynion statudol ag yn rhoi cyfle i bobl yr ardal leisio eu barn.

Holwyd os oes rhaid rhoi blwyddyn o rybudd i newid dosbarth defnydd tŷ, beth sy'n digwydd i dai sydd yn cael ei werthu cyn i'r cyfarwyddyd erthygl 4 dod i rym, a bod y dosbarth defnydd yn newid.

- Mewn ymateb i'r ymholiad, nododd Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd, yn anffodus, nid oes modd o atal newidiadau rhwng y dosbarthiadau defnydd yn ystod proses gwerthiant tai nes bod cyfarwyddyd erthygl 4 wedi dod i rym. Er nad oes dim a ellir ei wneud ar sail cynllunio ar hyn o bryd (heblaw gyda ceisiadau am dai newydd fel yr eglurwyd eisoes), mae'n bosibl bydd gan y perchennog newydd ymyraethau eraill megis trethiant i'w gysidro.

Diolchwyd am yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD**

**(i) Derbyn yr adroddiad, gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth.**

**(ii) Bod adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yng nghyfarfod 9 Mawrth 2023, yn edrych ar yr opsiynau ardaloedd posib lle gellir tystiolaethu'r defnydd o Gyfarwyddyd Erthygl 4.**

**(iii) Gofyn i'r Adran gynnwys gwybodaeth am yr ymgynghoriad a recriwtio yn yr adroddiad.**

**6. CYFLWYNO CYNLLUN GWELLA HAWLIAU TRAMWY**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet Amgylchedd, Rheolwr Cefn Gwlad a Phennaeth Cynorthwyol Amgylchedd. Tynnwyd sylw yn fras at y prif bwyntiau canlynol:

- Eglurodd Aelod Cabinet Amgylchedd bod y cynllun drafft wedi bod gerbron y Pwyllgor hwn cyn mynd allan i ymgynghoriad ac fe'i datblygwyd yn dilyn ymgynghoriad a gynhaliwyd dros yr haf. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys 7 cwestiwn a oedd wedi eu selio ar y camau gweithredu
- Cafwyd 294 o ymatebion i'r ymgynghoriad, gyda rhan helaeth o ymatebion yn dangos bodlonrwydd cyffredinol gyda'r cynllun gwella hawliau tramwy

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion canlynol:

Holwyd os oedd yr adran wedi cysidro chwilio am wirfoddolwyr i'w cynorthwyo i wella hawliau tramwy. Credir fod pobl yn awyddus i wirfoddoli gan ei fod yn tynnu cymunedau at ei gilydd. Byddai hyn hefyd yn ffordd dda o gydweithio gyda chynghorau tref a chymuned.

- Mewn ymateb i'r ymholiad, nododd Rheolwr Cefn Gwlad ei fod yn her i swyddogion gyd-lynu gwirfoddolwyr. Gall ymateb i ddiddordeb fod yn heriol ar brydiau gan nad ydi'r adnoddau ar gael i gefnogi gwirfoddolwyr yn barhaus. Rhaid cofio hefyd bod angen cysidro materion iechyd a diogelwch gyda rhai agweddau o wirfoddoli. Er hyn, cydnabuwyd nad oes digon o fanteisio ar wirfoddoli wedi cael ei gynnwys yn y cynllun ac mae lle i wella yma.

- Aeth y Rheolwr Cefn Gwlad ymlaen i gadarnhau fod perthynas cryf gyda chynghorau cymuned a thref yn enwedig gyda materion ariannu a grantiau. Mae gwaith parhaus yn cael ei wneud i gydweithio gyda chynghorau tref a chyrff cyhoeddus.

Nodwyd bod angen i wirfoddolwyr dderbyn hyfforddiant iechyd a diogelwch ac y gallent wneud y gwaith o arolygu llwybrau. Datganwyd clod i waith y gwasanaeth o ystyried y toriadau i'w gyllideb.

Gofynnwyd sut byddai'r cynllun yn caniatáu i geffylau fynd ar y llwybrau yn ddiogel wrth gysidro rhwystrau fel giatiau ac agosatrwydd at draffig ar y ffyrdd.

- Mewn ymateb i'r ymholiad, cadarnhaodd Rheolwr Cefn Gwlad y derbynnir ceisiadau yn rheolaidd gan gymdeithas ceffylau i gael caniatâd i ddefnyddio mwy ar y llwybrau. Mae rhai llwybrai yn addas yn barod megis Lonydd Las Ogwen Mae'r llwy'r yma yn llydan a gwastad sydd yn addas ar gyfer ceffylau a beiciau.
- Aeth y Rheolwr Cefn Gwlad ymlaen i ddweud fod anghysondeb yn y mathau o lwybrau sydd yn rhan o'r rhwydwaith felly nid ydi ceffylau a beiciau yn gallu mynd ar bob un. Mae gwaith yn cael ei wneud er mwyn cael cysondeb dros y rhwydwaith Lonydd Glas cyfan ac i gael asesiad diogelwch er mwyn i bob defnyddiwr fod yn saff wrth ddefnyddio'r llwybrau.

Holiwyd os oes gwaith yn cael ei wneud er mwyn gwneud y llwybrau yn fwy hygyrch i bobl gydag anawsterau symudedd neu i bobl gyda nam golwg. Tybir fod rhai pobl yn cael trafferthion defnyddio'r llwybrau oherwydd pellter arwyddion oddi wrth ei gilydd, yn enwedig os nad ydynt yn gweld yn dda iawn.

- Mewn ymateb i'r ymholiad, nododd Rheolwr Cefn Gwlad ei fod yn ymwybodol o'r trafferthion hyn. Mae'r adran wedi bod yn gweithio ers rhai blynyddoedd i leihau nifer o rwystrau sydd ar y llwybrau - megis newid camfa am giât ac os yn bosibl gwaredu'r giât gan adael adwy ddi-rwystr.
- Ymhelaethwyd bod y gwaith hwn yn cael ei adolygu yn rheolaidd. Mae'r adran yn dysgu wrth i bobl ddefnyddio'r llwybrau ac fe baratoir asesiad effaith cydraddoldeb ar gyfer y cynllun.

Gofynnwyd a oes modd derbyn adroddiad gan yr adran ar gyflwr y rhwydwaith llwybrau.

- Mewn ymateb i'r ymholiad, cadarnhaodd Rheolwr Cefn Gwlad fod sampl o gyflwr 6 cymuned ar gael. Mae'r samplau hyn yn dangos anghysondeb yn y rhwydwaith. Gall hyn fod am sawl rheswm megis tirwedd. Mae system newydd o reoli ac ymateb i gwynion erbyn hyn. Wrth edrych ar y cwynion, gellir edrych ar y mathau o ymholiadau sydd yn dod i mewn er mwyn gwneud asesiad pellach o gyflwr y llwybrau.

Diolchwyd am yr adroddiad

**PENDERFYNWYD**

**(i) Derbyn yr adroddiad gan gymeradwyo'r Adran Amgylchedd i baratoi fersiwn terfynol o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy, ac i ymgorffori argymhellion y Pwyllgor Craffu yng nghyswllt cynnwys mwy o wybodaeth o ran gwirfoddolwyr a materion mynediad i bawb.**

**(ii) Argymell i'r Cabinet fabwysiadu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy.**

**7. STRATEGAETH LLIFOGYDD LLEOL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac Ymgynghoriaeth Gwynedd, Pennaeth Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol a Phennaeth Cynorthwyol Ymgynghoriaeth Gwynedd . Tynnwyd sylw yn fras at y prif bwyntiau canlynol:

- Esboniodd Pennaeth Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol fod y ddogfen yn manylu ar risgiau llifogydd mewndirol ac arfordirol ond bod y rhain yn cael eu cysidro ar wahân.
- Trafodwyd risgiau llifogydd mewndirol gan egluro fod pob ardal yn cael eu cysidro yn annibynnol er mwyn datgan y risgiau sy'n effeithio gwahanol rannau o'r sir. Ystyriwyd bod ystyriaeth rhy leol wedi cael ei wneud yn y gorffennol ac felly mae'r adran yn awyddus i edrych ar ardaloedd fesul dalgylch er mwyn canfod risgiau mwy real.
- Trafodwyd risgiau arfordirol. Pwysleisiwyd bod yr adran eisiau canfod yr ardaloedd mwyaf bregus er mwyn ymgeisio am grantiau i gael deunyddiau i'w gwarchod.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion canlynol:

Holwyd tua faint mae lefelau'r môr yn mynd i godi yn sgil effaith newid hinsawdd, beth ellir ei wneud er mwyn ei atal a'r sefyllfa yn ardal Friog.

- Mewn ymateb i'r ymholiad hwn, nododd Pennaeth Cynorthwyol Ymgynghoriaeth Gwynedd bod rhagdybiaeth y bydd lefel y môr yn cynyddu tua metr yn y dyfodol oherwydd newid hinsawdd. Eglurodd bod cynllun penodol ar gyfer ardal Friog yng nghyswllt lliniaru effaith a'r effaith gymunedol. Nododd y gwneir asesiad effaith ar y gymuned.

Cyfeiriwyd at fwriad yr adran i edrych ar y dalgylchoedd yn rheolaidd i adolygu eu risgiau llifogydd. Gofynnwyd sut mae'r adran am fynd o gwmpas i wneud hyn.

- Mewn ymateb i'r ymholiad, cadarnhaodd Pennaeth Cynorthwyol Ymgynghoriaeth Gwynedd bod nifer o brosiectau bychan ar waith o fewn y dalgylchoedd er mwyn cael gwybodaeth eglur ym mhob ardal. Mae'r prosiectau yma yn cael eu hunioni cyn cyflwyno gwybodaeth i Gyfoeth Naturiol Cymru sydd yn bwydo'r wybodaeth i'w bas data.
- Ymhelaethwyd bod modd defnyddio map Cyfoeth Naturiol Cymru i weld faint o dai bydd mewn ardal risg uchel yn y dalgylch. Gan fod gwybodaeth yn cael ei fwydo i mewn yn rheolaidd i mewn i'r bas data, mae'r wybodaeth yma yn debygol o newid yn gyson. Wrth i'r adran weithio ar ardaloedd o risg uchel a datrys problemau, bydd y wybodaeth yn cael ei fwydo yn ôl i Gyfoeth Naturiol Cymru er mwyn iddynt ddiweddaru eu gwybodaeth.
- Pwysleisiwyd er bod y broses yma yn cymryd amser, bydd y blaenoriaethau bydd angen eu dilyn yn newid gydag amser er mwyn sicrhau bod cymorth atal llifogydd yn mynd i'r ardaloedd sydd eu hangen fwyaf. Mae'r wybodaeth yn cael ei symud o'r adran i Gyfoeth Naturiol Cymru dwywaith y flwyddyn. Mae hyn yn ddigonol i'r adran.

Nodwyd ei fod yn allweddol i gysidro pa sgil-effeithiau ar ardaloedd cyfagos gaiff prosiectau i warchod yr arfordir mewn un dalgylch. Mae'n bosib fod datrys risgiau llifogydd arfordirol mewn un gymuned yn cael effaith negyddol ar ardal arall. Mae'n bwysig cymryd y risgiau yma i ystyriaeth wrth geisio llunio fframwaith.

Mewn ymateb i sylwadau yng nghyswllt risg llifogydd ym Mhwllheli a Porthmadog, nodwyd mai Cyfoeth Naturiol Cymru oedd yn arwain ar gynlluniau yn yr ardaloedd yma. Eglurwyd bod mewnbwn gan yr Adran ac fe wneir ymholiadau o ran amserlen. Pwysleisiodd aelod ar bwysigrwydd cyfathrebu gyda chymunedau.

Cyfeiriwyd at strategaeth yr adran i edrych ar risgiau llifogydd mewndirol ac arfordirol ar wahân. Gofynnwyd a oes risg i'r darlun llawn gael ei golli wrth beidio ei chysidro fel un.

- Mewn ymateb i'r ymholiad, pwysleisiodd Pennaeth Cynorthwyol Ymgynghoriaeth Gwynedd na fydd hyn yn broblem. Gan fod prosiectau yn gweithredu fel rhannau o ddalgylchoedd, ni fydd yr effeithiau hyn yn cael ei golli.
- Ymhelaethwyd bod cydweithio yn digwydd gyda llawer o gyrff megis cyfoeth naturiol Cymru, cynghorau tref a cymuned. Yn y gorffennol mae cydweithio wedi bod yn heriol. Erbyn hyn mae'r sefyllfa wedi gwella ac mae pawb yn rhannu gweledigaeth a dyhead.

Diolchwyd am yr adroddiad

**PENDERFYNWYD**
**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth.**

**8. BLAEN RAGLEN PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU 2022/23**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Ymgynghorydd Craffu a thynnwyd sylw at y prif bwyntiau canlynol:

- Cadarnhawyd bod y pwyllgor wedi mabwysiadu'r rhaglen waith yn y cyfarfod diwethaf ar 28.09.2022. Ers hyn mae un adroddiad wedi llithro yn ôl yn yr amserlen, sef yr eitem 'Cynllun llesiant'. Derbyniwyd cais gan swyddogion i gyflwyno'r adroddiad hwn i'r pwyllgor ym mis Ionawr. Mae pedair eitem wedi eu rhaglennu ar gyfer mis Ionawr yn barod felly roedd angen blaenoriaethu.

- Eglurwyd bod yr eitem 'Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig' wedi ei amserlennu ar gyfer mis Ionawr. Cadarnhawyd bod sesiwn gwybodaeth wedi bod yn ddiweddar ar gyfer yr aelodau. Cynigir ei dynnu oddi ar amserlen mis Ionawr gan flaenoriaethu adroddiad 'Cynllun Llesiant' yn ei le. Bydd angen craffu'r cynllun llesiant gan y byddai'n llywio blaenoriaethau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn yn y cyfnod nesaf.

Mewn ymateb i ymholiad am gynnwys yr eitem 'Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig', cadarnhawyd mai amserlen/proses y cynllun y bwriadwyd ei graffu yn unig, nid cynnwys y cynllun ei hun. Mae'r wybodaeth yma eisoes wedi cael ei rannu yn y sesiwn gwybodaeth i aelodau.

**PENDERFYNWYD**
**(i) Blaenoriaethu'r eitem 'Cynllun Llesiant' ar gyfer cyfarfod 19 Ionawr 2023 gan dynnu'r eitem 'Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig'.**
**(ii) Mabwysiadu'r rhaglen waith diwygiedig ar gyfer 2022/23.**

Dechreuodd y Cyfarfod am 10:30yb a gorffennodd am 13:00yp

__________________________________
CADEIRYDD